# Nant Gwrtheyrn

Llithfaen, Pwllheli Gwynedd LL53 6NL
01758 750 334 Dyfynnu “WVIW”
Cyswllt: Mair Saunders
Ebost: post@nantgwrtheyrn.org
Gwefan: nantgwrtheyrn.cymru

**Priodasau Nant Gwrtheyrn**

Wedi ei leoli ar arfordir gogleddol Penrhyn Llŷn gyda golygfeydd hudolus o Fae Porthdinllaen, mae hen bentref chwarelyddol Nant Gwrtheyrn yn lleoliad delfrydol ar gyfer eich diwrnod arbennig.

Mae gan y Nant yr holl gyfleusterau sydd eu hangen i wneud eich diwrnod yn achlysur bythgofiadwy. Mae’r safle 200 acer yn lleoliad delfrydol ymhob tymor o’r flwyddyn ac yn cynnig lleoliad delfrydol ar gyfer eich lluniau priodasol.

Mae ein pecyn penwythnos yn cynnig defnydd i chi a’ch teulu a ffrindiau o’r llety gwely a brecwast ac ystafelloedd gweithgaredd, i’ch galluogi i ymlacio a mwynhau eich dathliadau. Arhoswch am y penwythnos a mwynhewch swper efo’r teulu ar y nos Wener a brecwast ar y dydd Sadwrn, gyda’r prif ddigwyddiad i ddilyn. Ewch am dro i weld y dyffryn hardd cyn ffarwelio ar y dydd Sul.

Mae ein staff profiadol wastad wrth law, i ddarparu gwasanaeth personol, ac yn fwy na hapus i helpu chi gyda’r paratoadau cyn ac yn ystod eich diwrnod arbennig.

Pan yn priodi yn Nant Gwrtheyrn, mae gennych yr opsiwn o gael seremoni grefyddol yng Nghapel Seilo sydd ar y safle neu i gael seremoni gyhoeddus yn y neuadd, sef ‘Ystafell Rhys’. Cafodd Capel Seilo ei adeiladu yn 1878 ar gyfer trigolion pentref y chwarel yn Nant Gwrtheyrn. Mae’r capel wedi cael ei adnewyddu’n ddiweddar ac mae’n lleoliad perffaith i gynnal seremoni briodas draddodiadol. Mae seremonïau sifil yn gallu cael eu cynnal yn y o’r sy’n cynnig golygfeydd arfordirol bendigedig.

# Nant Gwrtheyrn

Llithfaen, Pwllheli Gwynedd LL53 6NL
01758 750 334 Dyfynnu “WVIW”
Cyswllt: Mair Saunders
Ebost: post@nantgwrtheyrn.org
Gwefan: nantgwrtheyrn.cymru

# Nant Gwrtheyrn

Llithfaen, Pwllheli Gwynedd LL53 6NL
01758 750 334 Dyfynnu “WVIW”
Cyswllt: Mair Saunders
Ebost: post@nantgwrtheyrn.org
Gwefan: nantgwrtheyrn.cymru

Os ydych chi'n trefnu dathliad mawreddog neu briodas fechan gyda theulu a ffrindiau agos, mae’r neuadd yn Nant Gwrtheyrn yn werth ei weld ac yn cynnig lleoliad unigryw a chofiadwy ar gyfer eich dathliad. Gall y neuadd ddal hyd at 150 o westai ar gyfer y wledd briodas neu hyd at 300 o westai ar gyfer parti nos. Os ydych yn trefnu priodas fach ac yn teimlo bod y neuadd yn rhy fawr, gallwn drefnu wal dros dro er mwyn gwneud yr ystafell yn llai ac yn fwy personol. Gall eich gwesteion fwynhau gwydred o *champagne* a *chanapés* wrth fwynhau golygfeydd gwefreiddiol bae Porthdinllaen a mynyddoedd Wicklow o bryd i’w gilydd.

Os ydych yn teimlo bod y neuadd yn rhy fawr, mae’n bosib cynnal y wledd briodas yn ystafell haul y caffi, sy’n lleoliad perffaith ar gyfer dathliad personol gyda ffrindiau a theulu agos. Gyda golygfeydd panoramig tuag at Borthdinllaen, Ynys Môn a mynyddoedd Wicklow sydd i’w gweld o bryd i’w gilydd. Mae’r ystafell haul yn lleoliad delfrydol.

Mae gennym ddewis o dri phecyn priodas i gwrdd â’ch holl anghenion.

Ein bwriad yw i’ch helpu i wneud y diwrnod yn un arbennig ac yn ddathliad y bythgofiadwy fydd eich gwestai yn trysori am byth.

Dewiswch un o’n bwydlenni sydd wedi eu teilwra yn arbennig ar gyfer y wledd briodasol a’r parti nos. Mae rhestru gwin a phecynnau diod wedi cael eu dewis yn ofalus hefyd ar gael i gwrdd â’ch anghenion. Bydd ein rheolwr arlwyo’n fwy na pharod i drafod unrhyw anghenion penodol neu syniadau sydd gennych ar gyfer eich gwledd briodasol. Ein nod yw darparu gwasanaeth cwrtais, cyfeillgar ac effeithiol o fewn fframwaith proffesiynol er mwyn sicrhau bod eich diwrnod arbennig yn y Nant yn achlysur arbennig i chi a’ch teulu a gwestai drysori am byth.

# Nant Gwrtheyrn

Llithfaen, Pwllheli Gwynedd LL53 6NL
01758 750 334 Dyfynnu “WVIW”
Cyswllt: Mair Saunders
Ebost: post@nantgwrtheyrn.org
Gwefan: nantgwrtheyrn.cymru

# Nant Gwrtheyrn

Llithfaen, Pwllheli Gwynedd LL53 6NL
01758 750 334 Dyfynnu “WVIW”
Cyswllt: Mair Saunders
Ebost: post@nantgwrtheyrn.org
Gwefan: nantgwrtheyrn.cymru

**Trosolwg o’r lleoliad a chyfleusterau**

Llety grŵp newydd sbon, perffaith ar gyfer grŵp teuluol neu grŵp mawr o ffrindiau.

Cyfanswm ystafelloedd gwely: 54

Nifer o ystafelloedd llai: 2 (Gyda chyfleusterau i rannu’r brif neuadd yn dair ystafell - prif Neuadd, Neuadd fach ac ystafell Rhys.)

Trwydded sifil

Seremonïau partneriaeth sifil

Cyfleusterau ychwanegol - lleoliad mewn pentref preifat gyda llety, capel a thraeth.

Parcio ar gyfer hyd at 120 o geir

Croeso i gerbydau mawr.

**Niferoedd mae’r ystafelloedd yn ei ddal**

Neuadd fawr sy’n dal 150 o bobl ar gyfer gwledd ffurfiol a 300 ar gyfer swper bwffe parti nos

Ystafell haul a theras sy’n cynnig golygfeydd godidog o’r môr

# Nant Gwrtheyrn

Llithfaen, Pwllheli Gwynedd LL53 6NL
01758 750 334 Dyfynnu “WVIW”
Cyswllt: Mair Saunders
Ebost: post@nantgwrtheyrn.org
Gwefan: nantgwrtheyrn.cymru

# Nant Gwrtheyrn

Llithfaen, Pwllheli Gwynedd LL53 6NL
01758 750 334 Dyfynnu “WVIW”
Cyswllt: Mair Saunders
Ebost: post@nantgwrtheyrn.org
Gwefan: nantgwrtheyrn.cymru

**Argaeledd tymor priodas**
Trwy gydol y flwyddyn

**Llety**

Llety ar gyfer hyd at 125 person.

Mae gan westai'r opsiwn o aros yn ein bythynnod chwarelwyr rhestredig sydd wedi cael eu hadnewyddu yn llety modern. Mae’r stafelloedd cyfforddus yn rhai safon 5* (llety grŵp Croeso Cymru) gydag ystafell ymolchi’n gysylltiedig â phob ystafell. Rydym hefyd yn cynnig ystafelloedd ar gyfer teuluoedd a phedwar bwthyn hunanarlwyo fel pecyn priodas ychwanegol. Rydym yn cynnig gwasanaeth cyfeillgar a phersonol i wireddu eich holl anghenion ac i wneud y profiad yn un hudolus ar gyfer bawb.

**Cyfarwyddiadau ffordd**

Mae Nant Gwrtheyrn wedi ei leoli ger pentref Llithfaen, sydd 4 milltir o’r A499 (y ffordd rhwng Caernarfon a Pwllheli).

**Cyfarwyddiadau trên**

Y gorsafoedd agosaf yw Bangor (30 milltir) a Pwllheli (10 milltir).

# Nant Gwrtheyrn

Llithfaen, Pwllheli Gwynedd LL53 6NL
01758 750 334 Dyfynnu “WVIW”
Cyswllt: Mair Saunders
Ebost: post@nantgwrtheyrn.org
Gwefan: nantgwrtheyrn.cymru